

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn  
Answers to Questions not reached in Plenary**

**14 Gorffennaf 1999  
14 July 1999**

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[R] signifies the Member has declared an interest.

**Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Secretary for Health and Social Services**

**Waiting Times for Heart Surgery**

**Q5 Nick Bourne:** What representations has the Secretary for Health and Social Services received regarding waiting times for heart surgery in Wales and will she make a statement? (OAQ382VB)

**The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt):** I have received a number of representations regarding waiting times for cardiac services, which I have dealt with on an individual basis. More generally the Specialised Health Services Commission for Wales is looking at all aspects of adult cardiac services in Wales and will report later this year. I look forward to its recommendations.

**Rhestrau Aros ar gyfer Llawdriniaeth ar y Galon**

**C5 Nick Bourne:** Pa sylwadau a dderbyniwyd gan yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr amserau aros ar gyfer llawdriniaeth ar y galon yng Nghymru ac a wnaiff hi ddatganiad? (OAQ382VB)

**Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Yr wyf wedi derbyn nifer o sylwadau ynglŷn ag amserau aros ar gyfer llawdriniaeth ar y galon, ac fe ymdriniais â hwy ar sail unigol. Yn fwy cyffredinol, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol i Gymru yn edrych ar bob agwedd o wasanaethau'r galon i oedolion yng Nghymru a bydd yn cyflwyno'i adroddiad yn ddiweddarach eleni. Edrychaf ymlaen at ei argymhellion.

**Waiting Times for Heart Surgery**

**Q6 Kirsty Williams:** How many people are currently waiting on NHS lists to receive cardiac surgery in Wales and how long can they expect to wait before being treated? (OAQ417VB)

The latest figures show that on 31 May 1999 there were 917 people waiting for in-patient and day-case cardiac surgery in Wales. The average wait in Wales following a decision to admit for cardiac surgery was 25 weeks during 1998—well within the patient's charter guarantee of within a year of needing one.

I am well aware of the difficulties currently facing cardiac services. In addition to making £19 million available recurrently to reduce waiting lists for all conditions including cardiac procedures, we have invested £1.4 million recurrently to safeguard the level of cardiac surgical procedures in south Wales.

The Specialised Health Services Commission for Wales is looking at all aspects of adult cardiac services in Wales and will report later this year.

## **Rhestrau Aros ar gyfer Llawdriniaeth ar y Galon**

**C6 Kirsty Williams:** Faint o bobl sydd ar restrau aros yr NHS yng Nghymru ar hyn o bryd ar gyfer llawdriniaeth ar y galon, a pha mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros cyn cael triniaeth? (OAQ417VB)

**Jane Hutt:** Dengys y ffigurau diweddaraf fod 917 o bobl yn disgwyl am lawdriniaeth ar y galon yng Nghymru, fel cleifion preswyl a chleifion dydd, ar 31 Mai 1999. Y cyfnod aros ar gyfartaledd yng Nghymru, ar ôl penderfynu derbyn claf i gael llawdriniaeth ar y galon, oedd 25 wythnos yn ystod 1998—sy'n dod o fewn gwarant siarter y cleifion y cewch driniaeth o fewn blwyddyn i fod angen hynny, yn hawdd.

Yr wyf yn ymwybodol iawn o'r anawsterau sy'n wynebu gwasanaethau'r galon ar hyn o bryd. Yn ychwanegol at ddarparu £19 miliwn flwyddyn ar ôl blwyddyn i gwtogi'r rhestrau aros yng nghyswllt pob cyflwr gan gynnwys triniaethau'r galon, yr ydym wedi buddsoddi £1.4 miliwn flwyddyn ar ôl blwyddyn i ddiogelu lefel y llawdriniaethau ar y galon yn ne Cymru.

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol i Gymru yn edrych ar bob agwedd o wasanaethau'r galon i oedolion yng Nghymru a bydd yn cyflwyno'i adroddiad yn ddiweddarach eleni.

## **Social Services White Paper**

**Q7 Pauline Jarman:** Will developments included in the Welsh Office social services White Paper published on 30 March 1999 require and be awarded additional funding? (OAQ427VB)

**Jane Hutt:** Additional funding of over £35 million in the period to 2002 has already been announced for developments in children's services, training support and management information, but this is not just about money. The Social Services White Paper 'Building for the Future' set out a challenging agenda to modernise social services in Wales.

## **Papur Gwyn ar y Gwasanaethau Cymdeithasol**

**C7 Pauline Jarman:** A fydd angen, ac a roddir arian ychwanegol ar gyfer y datblygiadau ym Mhapur Gwyn y Swyddfa Gymreig ar y gwasanaethau cymdeithasol? (OAQ427VB)

**Jane Hutt:** Eisoes, cyhoeddwyd cyllid ychwanegol o dros £35 miliwn yn y cyfnod hyd at 2002 tuag at ddatblygiadau mewn gwasanaethau plant, cefnogaeth hyfforddi a gwybodaeth rheoli, ond nid mater o arian yn unig yw hyn. Mae'r Papur Gwyn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, 'Adeiladu ar gyfer y Dyfodol', yn gosod agenda llawn her i foderneiddio'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

## **Treherbert Hospital**

**Q8 Geraint Davies:** Will Jane Hutt confirm that no action will be taken to close Treherbert Hospital until such time as the full plan consulted upon by Bro Taf Health Authority has been implemented? (OAQ406VB)

**Jane Hutt:** No action will be taken to close Treherbert Hospital until construction work to develop and improve out-patient, radiology and physiotherapy facilities at Ysbyty George Thomas is complete.

## Ysbyty Treherbert

**C8 Geraint Davies:** A wnaiff Jane Hutt gadarnhau na chymerir unrhyw gamau i gau Ysbyty Treherbert nes y bydd y cynllun llawn y bu Awdurdod Iechyd Bro Taf yn ymgynghori yn ei gylch wedi'i roi ar waith? (OAQ406VB)

**Jane Hutt:** Ni chymerir unrhyw gamau i gau Ysbyty Treherbert nes y bydd y gwaith adeiladu i ddatblygu a gwella'r cyfleusterau i gleifion allanol, radioleg a ffisiotherapi yn Ysbyty George Thomas wedi ei gwblhau.

### Kidney Dialysis Unit (Bronglais Hospital)

**Q9 Elin Jones:** What assurances can Jane Hutt give that a kidney dialysis unit will be established at Bronglais General Hospital within this financial year? (OAQ379JS)

**Jane Hutt:** Dyfed Powys Health Authority has confirmed its intention to have the unit running by January 2000. I have no idea why it appears that contradictory statements were made earlier this year. The authority is currently in discussions with Ceredigion and mid Wales NHS Trust and the Ceredigion local health group how to establish this service within this timescale, in the most cost-effective way.

### Uned Dialysis yr Arennau (Ysbyty Bronglais)

**C9 Elin Jones:** Pa sicrwydd y gall Jane Hutt ei roi y bydd uned dialysis yr arennau yn cael ei sefydlu yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn ystod y flwyddyn ariannol hon? (OAQ379JS)

**Jane Hutt:** Mae Awdurdod Iechyd Dyfed Powys wedi cadarnhau mai ei fwriad yw sicrhau bod yr uned yn weithredol erbyn Ionawr 2000. Nid oes gennyf unrhyw syniad pam fod datganiadau i'r gwrthwyneb wedi eu gwneud yn gynharach eleni. Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn cynnal trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion a Chanolbarth Cymru a grŵp iechyd lleol Ceredigion ar sut i sefydlu'r gwasanaeth o fewn yr amserlen hon, yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

### Financial Problems in Hospitals

**Q10 David Melding:** What action is Jane Hutt taking to resolve the financial problems being experienced by half of all hospitals in Wales? (OAQ378JS) *Withdrawn.*

### Problemau Ariannol mewn Ysbytai

**C10 David Melding:** Pa gamau y mae Jane Hutt yn eu cymryd i ddatrys y problemau ariannol sy'n wynebu hanner holl ysbytai Cymru? (OAQ378JS) *Tynnwyd yn ôl.*

### 'Suicide and Stress in Farmers'

**Q11 Mick Bates:** What action is being taken as a result of the research by the Powys Rural Stress Group, 'Suicide and Stress in Farmers'? (OAQ377JS) [R]

**Jane Hutt:** The need for a cohesive approach across Wales was considered by the rural stress conference at Gregynog in 1997 which recognised a need to establish an all-Wales strategy. Officials have since had several meetings with Reverend Roger Hughes, the conference chairman, and Mr Nick Read, Director of the Rural Stress Information Network (RSIN), to discuss ways in which this could be achieved. I await their formal proposals.

More generally the mental illness strategy will provide a framework for a comprehensive range of services to be developed across Wales. The advisory group established to review the strategy is to produce a draft by the end of the year for the consideration of the National Assembly.

In addition, and in order to help our farmers adapt to meet the challenges of the changing agriculture industry, the WDA is setting up a farm development strategy group which will provide support to farmers in all sectors of Welsh farming. The group will set out an agenda for action to help farmers adopt best practice and environmentally friendly production techniques, to gain the skills to manage their farms as businesses and to take informed decisions about their future and those of their families. The group will also consider what is needed to promote farm diversification including research and development, technology transfer, training and information and advisory services. These services, which will be drawn together into a coherent framework to make them easy to access, will help meet the needs of farmers and alleviate some of the stress they are experiencing.

### **‘Hunanladdiad a Straen ymhlith Ffermwyr’**

**C11 Mick Bates:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd yn sgîl yr ymchwil gan Grŵp Powys ar Straen yng Nghefn Gwlad, ‘Hunanladdiad a Straen ymhlith Ffermwyr’? (OAQ377JS) [R]

**Jane Hutt:** Ystyriwyd yr angen am weithredu cydlynus ar draws Cymru gan y gynhadledd ar straen yng nghefn gwlad yng Ngregynnog yn 1997. Cydnabu'r gynhadledd yr angen i sefydlu strategaeth i Gymru gyfan. Ers hynny, mae'r swyddogion wedi cael sawl cyfarfod gyda'r Parchedig Roger Hughes, cadeirydd y gynhadledd, a Mr Nick Read, Cyfarwyddwr y Rhwydwaith Gwybodaeth ar Straen yng Nghefn Gwlad, i drafod ffyrdd o gyflawni hyn. Yr wyf yn disgwyl am eu cynigion ffurfiol.

Yn fwy cyffredinol, bydd y strategaeth ar salwch meddwl yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu ystod cynhwysfawr o wasanaethau ledled Cymru. Mae'r grŵp ymgynghorol a sefydlwyd i adolygu'r strategaeth i gynhyrchu drafft erbyn diwedd y flwyddyn i'w ystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn ogystal, er mwyn helpu ein ffermwyr i addasu i gwrdd â sialensiau'r diwydiant amaethyddol cyfnewidiol, mae'r Awdurdod Datblygu yn sefydlu grŵp strategaeth ar ddatblygu ffermydd a fydd yn cynnig cefnogaeth i ffermwyr ym mhob sector ffermio yng Nghymru. Bydd y grŵp yn nodi agenda gweithredu i helpu ffermwyr i fabwysiadu'r arferion gorau a thechnegau cynhyrchu sy'n gydnaws â'r amgylchedd, i feithrin y sgiliau i reoli eu ffermydd fel busnesau ac i wneud penderfyniadau am eu dyfodol hwy a dyfodol eu teuluoedd, gan wybod y ffeithiau. Bydd y grŵp hefyd yn ystyried beth sy'n ofynnol i annog ffermydd i arallgyfeirio, gan gynnwys ymchwil a datblygu, trosglwyddo technoleg, hyfforddiant a gwasanaethau gwybodaeth a chyngori. Bydd y gwasanaethau hyn, a dynnir ynghyd yn un fframwaith cydlynus fel ei bod yn hawdd manteisio arnynt, yn help i ddiwallu anghenion ffermwyr a lliniaru peth o'r straen y maent yn ei brofi.

### **Health Authorities and Health Trusts (Financial Deficits)**

**Q12 Michael German:** Will Jane Hutt issue a statement regarding the current position on financial deficits in the health authorities and health trusts of Wales? (OAQ403VB)

**Jane Hutt:** As already reported to the Assembly, the 1998-99 unaudited accounts indicate that health authorities have incurred a net operating deficit of £11.2 million and trusts £8.7 million, giving an overall net operating deficit of almost £20 million. The health authority deficits are stated net of GP fundholder savings of £1.9 million, without which the overall deficit increases to almost £22 million.

The reported deficits will appear to increase significantly due to the application of a new accounting convention, Financial Reporting Standard 11. This new standard requires a change in the accounting treatment for a permanent impairment in the value of fixed assets, such as buildings. NHS Wales estate has been recently re-valued and it is expected that this will increase the overall 1998-99 deficit by some £120 million.

### **Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Iechyd (Diffygion Ariannol)**

**C12 Michael German:** A wnaiff Jane Hutt gyhoeddi datganiad ynghylch y sefyllfa bresennol o ran diffygion ariannol awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd Cymru? (OAQ403VB)

**Jane Hutt:** Fel yr hysbyswyd y Cynulliad cyn hyn, mae cyfrifon 1998-99, sydd heb eu harchwilio, yn dangos bod yr awdurdodau iechyd yn wynebu diffyg gweithredol net o £11.2 miliwn a'r ymddiriedolaethau £8.7 miliwn, gan roi diffyg gweithredol net drwyddo draw o bron i £20 miliwn. Mae diffygion yr awdurdodau iechyd wedi eu nodi fel ffigur net o arbedion meddygon teulu sydd â'u cronfa eu hunain. Heb yr arbedion hynny o £1.9 miliwn, mae cyfanswm y diffyg yn codi i bron i £22 miliwn.

Bydd yn ymddangos bod y diffygion a ddatgenir yn cynyddu'n sylweddol am fod confensiwn cyfrifo newydd, Safon Adroddiadau Ariannol 11, yn cael ei roi ar waith. Yn ôl y safon newydd hon rhaid newid y driniaeth gyfrifo i adlewyrchu dirywiad parhaol yng ngwerth asedau sefydlog, megis adeiladau. Mae ystad NHS Cymru wedi cael ei hailbrisio'n ddiweddar a disgwylir y bydd hyn yn cynyddu diffyg 1998-99 drwyddo draw o tua £120 miliwn.

### **Appointments with General Practitioners**

**Q13 Carwyn Jones:** What plans does Jane Hutt have to reduce the amount of time that patients have to wait for appointments with GPs? (OAQ439VB)

**Jane Hutt:** GPs are required by their terms of service to provide immediately necessary care and treatment. There should be no question of any patient having to wait an inordinate length of time for an appointment when there is a pressing clinical need.

GPs are independent contractors providing general medical services under the National Health Service. They are able to exercise discretion and freedom in the way they run their practices. This autonomy carries with it the administrative and financial responsibility for running the practice and also the responsibility for the clinical services provided.

The health authority should be informed if a GP intends to operate or discontinue an appointments system but has no jurisdiction to direct a GP to offer patients an appointment within a specified time.

### **Apwyntiadau gyda Meddygon Teulu**

**C13 Carwyn Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt ar y gweill i sicrhau nad yw cleifion yn gorfod aros mor hir am apwyntiadau gyda'u meddygon teulu? (OAQ439VB)

**Jane Hutt:** Yn ôl eu telerau gwasanaeth, mae'n rhaid i feddygon teulu ddarparu gofal a thriniaeth angenrheidiol ar unwaith. Ni ddylai unrhyw glaf fod yn gorfod disgwyl yn afresymol o hir am apwyntiad lle bo yna angen clinigol dybryd.

Contractwyr annibynnol yw meddygon teulu sy'n darparu gwasanaethau meddygol cyffredinol dan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Cânt arfer doethineb a rhyddid yn y ffordd y

maent yn cynnal eu practis. Law yn llaw â'r annibyniaeth yma daw'r cyfrifoldeb gweinyddol ac ariannol am redeg y practis ynghyd â'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau clinigol a ddarperir.

Dylid hysbysu'r awdurdod iechyd os oes meddyg teulu yn bwriadu cynnal neu roi'r gorau i system apwyntiadau, ond nid oes gan yr awdurdod iechyd unrhyw awdurdod i fynnu bod meddyg teulu yn cynnig apwyntiad i gleifion o fewn cyfnod penodedig.

### **European Directive 98/43**

**Q14 Alun Pugh:** Will Jane Hutt make a statement on the timescale for the implementation of ED 98/43/EC in Wales? (OAQ411JS)

**Jane Hutt:** Draft regulations to implement European Directive 98/43/EC, which relates to the banning of tobacco advertising and sponsorship, were published for consultation on a UK-wide basis last month by the Secretary of State for Health. The EC directive requires member states to introduce legislation to phase out tobacco advertising, including promotion and sponsorship, in its entirety by 30 July 2006. The schedule set by the Directive involves ending:

- most forms of tobacco advertising, including billboards, by 30 July 2001;
- tobacco advertising in the press by 30 July 2002;
- general tobacco sponsorship by 30 July 2003;
- tobacco sponsorship of events organised at global level by 30 July 2006.

However, the directive also allows individual member states to phase out tobacco advertising earlier. In the draft regulations which have gone out for consultation, the introduction in the UK of the ban on general tobacco advertising and advertising in the press with effect from December 1999 has been proposed.

Subject to the outcome of the consultation, the regulations are expected to be laid at the end of the summer and to come into force in December 1999.

### **Cyfarwyddeb Ewropeaidd 98/43**

**C14 Alun Pugh:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch yr amserlen ar gyfer gweithredu Cyfarwyddeb Ewropeaidd 98/43 y Gymuned Ewropeaidd yng Nghymru? (OAQ411JS)

**Jane Hutt:** Cyhoeddwyd rheoliadau drafft i roi ar waith Gyfarwyddeb Ewropeaidd 98/43/EC, sy'n ymdrin â gwahardd hysbysebion a nawdd gan gwmnïau tybaco, at ddibenion ymgynghori ledled y DU fis diwethaf gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd. Yn ôl Cyfarwyddeb CE rhaid i'r aelod wladwriaethau gyflwyno deddfwriaeth i wneud i ffwrdd â hysbysebion tybaco, gan gynnwys hyrwyddo a nawdd, yn gyfan gwbl erbyn 30 Gorffennaf 2006. Mae'r atodlen a bennwyd gan y Gyfarwyddeb yn golygu rhoi terfyn ar:

- y rhan fwyaf o fathau o hysbysebion tybaco, gan gynnwys byrddau poster, erbyn 30 Gorffennaf 2001;
- hysbysebion tybaco yn y wasg erbyn 30 Gorffennaf 2002;
- nawdd cyffredinol gan gwmnïau tybaco erbyn 30 Gorffennaf 2003;
- nawdd gan gwmnïau tybaco i ddigwyddiadau a drefnir ar lefel fyd-eang erbyn 30 Gorffennaf 2006.

Fodd bynnag, mae'r gyfarwyddeb hefyd yn caniatáu i aelod wladwriaethau unigol wneud i ffwrdd â hysbysebion tybaco yn gynt. Yn y rheoliadau drafft a gyhoeddwyd i'r diben o

ymgyngori, awgrymwyd bod y gwaharddiad ar hysbysebion tybaco cyffredinol a hysbysebion yn y wasg i ddod i rym o fis Rhagfyr 1999.

Yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghori, disgwylir i'r rheoliadau gael eu cyflwyno gerbron y Senedd ddiwedd yr haf ac iddynt ddod i rym ym mis Rhagfyr 1999.

### **Dyfed Powys Health Authority**

**Q15 Richard Edwards:** Is Jane Hutt aware that Dyfed Powys Health Authority, having benefited from a 9.7 per cent rise in funding this year, has passed only 5 per cent in funding to the Pembrokeshire and Derwen NHS Trust? (OAQ440VB)

**Jane Hutt :** Yes. This is one of a number of factors that have led me and the First Secretary to pay particular attention to the finances of the health service in Dyfed Powys which is facing significant financial difficulties. The problems include underlying deficits in the Pembrokeshire and Derwen Trust. The percentage increases negotiated between Dyfed Powys Health Authority and its constituent trusts should be the result of agreements between them, made in the light of the corporate need to address these difficulties. They must operate within available resources and work towards the restoration of overall financial balance.

### **Awdurdod Iechyd Dyfed Powys**

**C15 Richard Edwards:** A yw Jane Hutt yn ymwybodol nad yw Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, sydd wedi cael 9.7 y cant yn fwy o arian eleni, ond wedi trosglwyddo 5 y cant o'r cynnydd hwnnw i Ymddiriedolaeth NHS Sir Benfro a Derwen? (OAQ440VB)

**Jane Hutt:** Ydwyf. Un yw hwn o blith nifer o ffactorau sydd wedi peri i mi a'r Prif Ysgrifennydd roi sylw arbennig i gyllid y gwasanaeth iechyd yn Nyfed Powys, sy'n wynebu anawsterau ariannol difrifol. Mae'r problemau'n cynnwys diffyg ariannol sylfaenol yn Ymddiriedolaeth Sir Benfro a Derwen. Dylid seilio'r codiad canrannol a bennir rhwng Awdurdod Iechyd Dyfed Powys a'r ymddiriedolaethau sy'n perthyn iddo ar gytundebau rhyngddynt, gyda'r rheini yn adlewyrchu'r angen corfforaethol i fynd i'r afael â'r anawsterau hyn. Rhaid iddynt weithredu oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael a gweithio tuag at fantoli'r gyllideb drwyddi draw.

### **Waiting Lists for Hearing Tests**

**Q16 Jenny Randerson:** What plans are there to reduce waiting lists for NHS hearing tests in Wales? (OAQ421VB)

**Jane Hutt:** Since April 1997 the Government has invested £36 million to help NHS Wales reduce waiting lists. An additional £19 million has been made recurrently available from 1999-2000. It is up to each health authority to decide how the extra funding is distributed and what priority is given to each service, including hearing tests.

### **Rhestrau Aros ar gyfer Profion Clyw**

**C16 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gwtogi'r rhestrau aros ar gyfer profion clyw yng Nghymru? (OAQ421VB)

**Jane Hutt:** Er Ebrill 1997 mae'r Llywodraeth wedi buddsoddi £36 miliwn i helpu NHS Cymru i leihau rhestrau aros. Bydd £19 miliwn ychwanegol ar gael flwyddyn ar ôl blwyddyn o 1999-2000 ymlaen. Mater i bob awdurdod iechyd yw penderfynu sut mae'r cyllid ychwanegol i gael ei ddsbarthu a pha flaenoriaeth a roddir i bob gwasanaeth, gan gynnwys profion clyw.

## Health Authorities and NHS Trusts

**Q17 Peter Black:** What proposals does Jane Hutt have to improve the public accountability of health authorities and NHS trusts in Wales? (OAQ398VB)

**Jane Hutt:** Health authorities and NHS trusts are already accountable to the National Assembly for their performance and are expected to operate in accordance with the principles of good corporate governance and adhere to the Code of Practice on Openness in the NHS. My recent decisions to strengthen the contribution of community health councils and additional measures to give the public greater information on the performance of NHS bodies will further improve public accountability.

## Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau NHS

**C17 Peter Black:** Pa gynigion sydd gan Jane Hutt i wneud awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau NHS Cymru yn fwy atebol i'r cyhoedd? (OAQ398VB)

**Jane Hutt:** Mae'r awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau NHS eisoes yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol am eu perfformiad a disgwylir iddynt weithredu yn unol ag egwyddorion llywodraethu corfforaethol da a chadw at y Cod Ymarfer ar fod yn Agored yn yr NHS. Bydd fy mhenderfyniadau diweddar i gryfhau cyfraniad y cynghorau iechyd cymuned a mesurau ychwanegol i roi mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am berfformiad cyrff NHS yn golygu mwy eto o atebolrwydd i'r cyhoedd.

## Protocols for Immunisation Programmes

**Q18 Brian Gibbons:** What plans does Jane Hutt have to review and update the protocols for immunisation programmes in Wales especially in regard to MMR, meningococcal and influenza vaccination? (OAQ402VB) [R]

**Jane Hutt:** We are aware of the problems of MMR uptake and have been working with the immunisation co-ordinators in the health authorities to raise awareness and thus the levels of uptake. Action has included a conference for members of primary health care teams and seminars in each authority. In August last year a UK-wide campaign was undertaken to boost uptake and allay parental fears. At a recent meeting co-ordinators noted that there was a slight increase in the uptake rate due to positive campaigning and team working by local health professionals.

It is planned that the flu vaccination publicity campaign this year will run along the lines of previous years. The leaflets 'What should I do about flu?' and 'Flu Vaccination' will be widely disseminated to GP surgeries, community pharmacies and hospital waiting rooms along with a letter from the Chief Medical Officer to all GPs. This material continues the guidance introduced last year which states that vaccination is recommended, in addition to the usual at-risk groups, for anyone over 75 years old and for people living in places where there is a high risk of flu spreading quickly, for example homes for the elderly.

Meningococcal disease can cause considerable worries, particularly given recent outbreaks and we are working to provide comprehensive information for parents, with leaflets available for use by the general public and health professionals. At the start of each academic year, leaflets, posters and screen savers entitled 'Look out for your mate' are made available to all institutes of further and higher education. These give details of what to look out for and when to seek medical assistance. Raising public awareness of the symptoms to look for and the action to take could mean the difference between life and death. The group set up to advise further on the incidence of meningococcal disease in Wales is due to report shortly and I shall be announcing what further action I plan in the light of their findings.



## Protocolau ar gyfer Rhaglenni Imiwneiddio

**C18 Brian Gibbons:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i adolygu a diweddarau'r protocolau ar gyfer rhaglenni imiwneiddio yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â brechiadau MMR, meningococaid a'r fflw? (OAQ402VB) [R]

**Jane Hutt:** Yr ydym yn ymwybodol o'r problemau ynglŷn â manteisio ar frechiadau MMR ac yr ydym wedi bod yn gweithio gyda'r cydlynwyr imiwneiddio yn yr awdurdodau iechyd i godi ymwybyddiaeth a, thrwy hynny, gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar y brechiad. Un elfen yn hyn o beth fu cynhadledd i aelodau timau gofal iechyd sylfaenol a seminarau ym mhob awdurdod. Fis Awst diwethaf ymgymerwyd ag ymgyrch ledled y DU i chwyddo'r niferoedd sy'n manteisio ar y brechiad a lleddfu ofnau rhieni. Mewn cyfarfod diweddar nododd cydlynwyr bod yna gynnydd bychan yn y nifer sy'n cymryd y brechiad yn sgîl ymgyrchu positif a gwaith tîm gan weithwyr iechyd lleol.

Bwriedir cynnal ymgyrch gyhoedduswydd y brechiad rhag y fflw eleni ar yr un llinellau ag yn y gorffennol. Caiff y taflenni 'Beth ddylwn i ei wneud am y fflw?' a 'Brechu Rhag y Fflw' eu dosbarthu'n eang i feddygfeydd lleol, fferyllfeydd cymunedol ac ystafelloedd aros ysbytai ynghyd â llythyr oddi wrth y Prif Swyddog Meddygol at bob meddyg teulu. Mae'r deunydd hwn yn barhad o'r arweiniad a gyflwynwyd y llynedd sy'n dweud bod brechu'n cael ei argymhell, yn ychwanegol at y grwpiau arferol sydd dan risg, i bawb dros 75 mlwydd oed a phobl sy'n byw mewn mannau lle bo perygl i'r fflw ledaenu'n gyflym, er enghraifft cartrefi henoed.

Gall clefyd meningococaid achosi llawer o ofid, yn enwedig o gofio'r nifer o achosion a gafwyd yn ddiweddar, ac yr ydym yn gweithio tuag at roi gwybodaeth gynhwysfawr i rieni, gyda thaflenni ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd a gweithwyr iechyd proffesiynol. Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd, mae taflenni, posteri a sgrîn gadw dan y teitl 'Cofia gadw golwg ar dy fêt' yn cael eu cynnig i bob sefydliad addysg bellach ac uwch. Mae'r rhain yn rhoi manylion o'r hyn i gadw golwg amdano a phryd i geisio cymorth meddygol. Gallai codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r symptomau y dylid cadw golwg amdanynt a pha gamau i'w cymryd olygu'r gwahaniaeth rhwng byw a marw. Mae'r grŵp a sefydlwyd i'n cynghori ymhellach ar nifer yr achosion o glefyd meningococaid yng Nghymru i roi ei adroddiad yn fuan a byddaf yn cyhoeddi pa gamau pellach y gallaf eu cynllunio yng ngoleuni'r canfyddiadau.

## Report on Teenage Pregnancy

**Q19 Brian Gibbons:** Does Jane Hutt have any plans to develop a specific Welsh response to the social exclusion units report on teenage pregnancy? (OAQ401VB)

**Jane Hutt:** I refer Mr Gibbons to the answer the First Secretary gave to question OAQ233JS on 29 June 1999.

## Adroddiad ar Feichiogi ymhlith Merched yn eu Harddegau

**C19 Brian Gibbons:** A oes unrhyw gynlluniau gan Jane Hutt ar y gweill i ddatblygu ymateb penodol ar gyfer Cymru i adroddiad yr uned dieithrwech cymdeithasol ar feichiogi ymhlith merched yn eu harddegau? (OAQ401VB)

**Jane Hutt:** Cyfeiriaf Mr Gibbons at yr ateb a roddodd y Prif Ysgrifennydd i gwestiwn OAQ233JS ar 29 Mehefin 1999.

## Health Problems in the South Wales Valleys

**Q20 Huw Lewis:** What role does Jane Hutt see for local health groups in contributing to the assessment and the addressing of health problems in the south Wales valleys? (OAQ433VB)

**Jane Hutt:** Local health groups have a key role to play in health improvement in any community, particularly in areas of deprivation such as the south Wales valleys. They will be key contributors to the development and implementation of health improvement programmes being co-ordinated by health authorities in Wales. Their role will be to identify local needs, to recommend service changes and developments, and to build effective links with their local partners.

Another key objective for local health groups will be to participate in the development of the primary care strategy for Wales over the coming months.

## Problemau Iechyd yng Nghymoedd De Cymru

**C20 Huw Lewis:** Ym marn Jane Hutt, pa rôl sydd gan grwpiau iechyd lleol o ran cyfrannu at asesu a mynd i'r afael â phroblemau iechyd yng nghymoedd de Cymru? (OAQ433VB)

**Jane Hutt:** Mae gan grwpiau iechyd lleol rôl allweddol i'w chwarae er gwella iechyd mewn unrhyw gymuned, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig fel cymoedd de Cymru. Byddant yn gyfranwyr allweddol tuag at ddatblygu a gweithredu'r rhaglenni gwella iechyd sy'n cael eu cydlynu gan awdurdodau iechyd yng Nghymru. Eu rôl fydd canfod anghenion lleol, argymhell newidiadau a datblygiadau mewn gwasanaethau, a llunio cysylltiadau effeithiol gyda'u partneriaid lleol.

Amcan allweddol arall i grwpiau iechyd lleol fydd cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu strategaeth gofal sylfaenol i Gymru dros y misoedd nesaf.

## NHS Dentistry

**Q21 David Lloyd:** Will Jane Hutt make a statement about the future of NHS dentistry in Wales? (OAQ380JS)

**Jane Hutt:** I refer the Assembly Member to the answer I gave to Alison Halford on 16 June (OAQ150).

## Deintyddiaeth o fewn yr NHS

**C21 David Lloyd:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch dyfodol deintyddiaeth o fewn yr NHS yng Nghymru? (OAQ380JS)

**Jane Hutt:** Cyfeiriaf yr Aelod at yr ateb a roddais i Alison Halford ar 16 Mehefin (OAQ150).

## Community Care (Extra Resources)

**Q22 Peter Black:** What extra resources have been identified for local authorities in Wales for community care in this financial year and subsequent years? (OAQ391VB)

**Jane Hutt:** Total standard spending, net of specific grants, increased by £145 million for 1999-2000. The final instalment of £21 million for community care was transferred into the local government revenue settlement in 1998-99 bringing the total annual amount transferred to £190 million since community care started in 1993. 1998-99 was the last year when a specific amount for community care was identified.

## **Gofal yn y Gymuned (Adnoddau Ychwanegol)**

**C22 Peter Black:** Pa adnoddau ychwanegol sydd wedi'u clustnodi ar gyfer awdurdodau lleol Cymru ar gyfer gofal yn y gymuned yn ystod y flwyddyn ariannol hon a'r blynyddoedd dilynol? (OAQ391VB)

**Jane Hutt:** Cynyddodd cyfanswm y gwariant safonol, net o grantiau penodol, £145 miliwn yn 1999-2000. Trosglwyddwyd y rhandaliad terfynol o £21 miliwn tuag at ofal yn y gymuned i setliad refeniw llywodraeth leol yn 1998-99, gan ddod â'r cyfanswm blynyddol a drosglwyddir i £190 miliwn ers sefydlu gofal yn y gymuned yn 1993. 1998-99 oedd y flwyddyn olaf pryd y dynodwyd swm penodol ar gyfer gofal yn y gymuned.

## **Ysbyty Cyffredinol Bronglais**

**C23 Cynog Dafis:** Sut y mae Jane Hutt yn bwriadu sicrhau y bydd Ysbyty Cyffredinol Bronglais yn parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol ar gyfer yr ardal helaeth y mae'n gyfrifol amdani? (OAQ395JS)

**Jane Hutt:** Awdurdod Iechyd Dyfed Powys ac Ymddiriedolaeth NHS Ceredigion sy'n gyfrifol am gytuno ar y gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Bronglais o fewn y cynnydd cyllidol sydd ar gael ar gyfer y gwasanaeth iechyd yn yr ardal.

## **Bronglais General Hospital**

**Q23 Cynog Dafis:** How does Jane Hutt intend to ensure that Bronglais General Hospital will be able to maintain the services it provides for the extensive area for which it is responsible? (OAQ395JS)

**Jane Hutt:** It is for Dyfed Powys Health Authority and Ceredigion NHS Trust to agree on the services to be provided at Bronglais within the increased finance available for the health service in the area.

## **Cardiac Units (The Heath and Morriston Hospitals)**

**Q24 David Davies:** How much capital investment will be provided to expand the cardiac units in the Heath and Morriston hospitals and will Jane Hutt make a statement? (OAQ400)

**Jane Hutt:** The Specialised Health Services Commission for Wales is currently looking at the planning and provision of adult cardiac services across the whole of Wales. The commission's work includes evaluating the business cases it has received from the University Hospital of Wales and Morriston Hospital. The financial assessment provided by the commission will deal with both the capital and revenue costs of increasing surgical capacity. I look forward to receiving its detailed advice in the autumn.

## **Unedau'r Galon (Ysbyty'r Waun ac Ysbyty Treforys)**

**C24 David Davies:** Faint o fuddsoddiad cyfalaf a fydd yn cael ei ddarparu i ehangu unedau'r galon yn ysbyty'r Waun ac ysbyty Treforys, ac a wnaiff Jane Hutt ddatganiad? (OAQ400)

**Jane Hutt:** Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol i Gymru yn edrych ar y ffordd y mae gwasanaethau'r galon yn cael eu cynllunio a'u darparu ar draws Cymru gyfan. Mae gwaith y comisiwn yn cynnwys gwerthuso'r achosion busnes y mae wedi eu derbyn oddi wrth Ysbyty Prifysgol Cymru ac Ysbyty Treforys. Bydd asesiad ariannol y comisiwn yn delio â'r costau cyfalaf a refeniw o gynyddu nifer y llawdriniaeth y gellir ymdopi â nhw. Edrychaf ymlaen at dderbyn ei gyngor manwl yn yr hydref.

### Extra Per-capita Costs

**Q25 Phil Williams:** What part of the extra per capita costs for health in Wales compared with the UK average, is accounted for by the higher proportion of the population in Wales who are over the retiring age and the extra burden this places on the NHS in Wales? (OAQ430VB)

**Jane Hutt:** A higher proportion of the Welsh population is over the state retirement age than is the case for the UK as a whole—20 per cent compared with 18 per cent. But age is only one of a great many factors which may influence demand for health services. For example, the general level of morbidity in the population, the socio-economic conditions in an area and indeed the way health services themselves are configured will all contribute to expectations of, and demand for, health services. It is not possible, therefore, to isolate the extent to which the age distribution of the population in Wales contributes to additional demand compared with the UK average.

### Gwariant Uwch y Pen

**C25 Phil Williams:** Pa gyfran o'r gwariant uwch y pen ar iechyd yng Nghymru, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sy'n ganlyniad i'r ffaith bod cyfran uwch o boblogaeth Cymru dros yr oed ymddeol, a pha bwysau ychwanegol y mae hyn yn ei roi ar yr NHS yng Nghymru? (OAQ430VB)

**Jane Hutt:** Mae cyfran uwch o boblogaeth Cymru dros yr oed ymddeol gwladol na'r gyfran i'r DU yn ei chyfanrwydd—20 y cant o'i gymharu â 18 y cant. Ond dim ond un o blith llawer iawn o ffactorau a all ddylanwadu ar y galw am wasanaethau iechyd yw oed. Er enghraifft, bydd y lefel gyffredinol o afiechyd yn y boblogaeth, yr amodau cymdeithasol-economaidd mewn ardal ac yn wir y ffordd y mae'r gwasanaethau iechyd eu hunain wedi eu trefnu i gyd yn cyfrannu at yr hyn a ddisgwylir o du'r gwasanaethau iechyd, a'r galw amdanynt. Nid yw, felly, yn bosibl ynysu dosbarthiad oedran y boblogaeth yng Nghymru a dweud i ba raddau y mae'n cyfrannu at y galw ychwanegol o'i gymharu â'r cyfartaledd drwy'r DU.

### National Health Service Spending (Pay Settlements)

**Q26 John Griffiths:** What proportion of this year's increase in NHS spending has been allocated to meet this year's pay settlements? (OAQ437VB)

**Jane Hutt:** The cash increase on health authority allocations for 1999-2000 fully funds all cost pressures including the cost of the 1999 NHS pay settlement and the final staging effect of the 1998 settlement. The cost of the pay awards was estimated by health authorities to be £38 million in 1999-2000—20 per cent of the additional £193 million provided to health authorities.

### Gwariant y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Codiadau Cyflog)

**C26 John Griffiths:** Pa gyfran o'r cynnydd yng ngwariant yr NHS eleni sydd wedi'i dyrannu i dalu codiadau cyflog eleni? (OAQ437VB)

**Jane Hutt:** Mae'r arian ychwanegol yn nyraniadau'r awdurdodau iechyd am 1999-2000 yn llwyr gyllido'r holl bwysau o ran costau, gan gynnwys cost codiadau cyflog 1999 yr NHS ac effaith rhoi cam olaf codiad 1998 mewn grym. Amcangyfrifwyd gan yr awdurdodau iechyd y bydd cost y dyfarniadau cyflog yn £38 miliwn yn 1999-2000—20 y cant o'r £193 miliwn ychwanegol a neilltuwyd i'r awdurdodau iechyd.

### **Dyfed Powys Health Authority (Financial Position)**

**Q27 Nick Bourne:** What representations has Jane Hutt received regarding the financial position of Dyfed Powys Health Authority and will she make a statement? (OAQ418VB)

**Jane Hutt:** I have received several representations on the financial position of Dyfed Powys Health Authority, from the Authority itself, Dyfed Powys and neighbouring trusts, and also members of the public. These representations have covered a range of issues and since being appointed I have worked with the First Secretary to tackle the serious financial position in Dyfed Powys.

We are adopting a collaborative approach, ensuring that all stakeholders are involved in, and have the opportunity to contribute to the formulation of a long-term recovery plan to achieve a balanced financial position in Dyfed Powys, while ensuring that the health needs of the population are properly met. The First Secretary and I met Assembly Members for an initial discussion on 22 June and both the First Secretary and I will shortly meet other major stakeholders including the health authority, trusts, local health groups, community health councils, local authorities and trade unions.

### **Awdurdod Iechyd Dyfed Powys (Sefyllfa Ariannol)**

**C27 Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Jane Hutt wedi'u derbyn ynghylch sefyllfa ariannol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, ac a wnaiff hi ddatganiad? (OAQ418VB)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi derbyn nifer o sylwadau am sefyllfa ariannol Awdurdod Iechyd Dyfed Powys, oddi wrth yr Awdurdod ei hun, Dyfed Powys a'r ymddiriedolaethau cyfagos, a hefyd gan aelodau'r cyhoedd. Mae'r sylwadau wedi ymdrin ag ystod o faterion ac ers imi gael fy mhenodi yr wyf wedi gweithio gyda'r Prif Ysgrifennydd i fynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol ddifrifol yn Nyfed Powys.

Yr ydym yn gweithio mewn ffordd gydweithredol, gan sicrhau bod pob buddiannwr â llais, ac yn cael cyfle i gyfrannu at lunio cynllun adfer hirdymor i sicrhau sefyllfa ariannol sy'n mantoli, tra'n sicrhau bod anghenion iechyd y boblogaeth yn cael eu diwallu'n briodol. Cyfarfu'r Prif Ysgrifennydd a minnau ag Aelodau o'r Cynulliad i gynnal trafodaeth gychwynnol ar 22 Mehefin a bydd y Prif Ysgrifennydd a minnau yn cwrdd â buddianwyr eraill o bwys yn fuan, gan gynnwys yr awdurdod iechyd, ymddiriedolaethau, grwpiau iechyd lleol, cynghorau iechyd cymuned, awdurdodau lleol ac undebau llafur.

### **Psychiatric Beds**

**Q28 Carwyn Jones:** What plans does Jane Hutt have to safeguard the number of psychiatric beds in Wales? (OAQ414VB)

**Jane Hutt:** We have set up two advisory groups, made up of members from all interest groups, to draw up all Wales strategies for both adult and child and adolescent mental health services. In the course of their work, these groups will consider the question of the correct number of psychiatric beds for Wales. They will wish to consider not only total numbers but the quality and location of these in-patient facilities.

### **Gwlâu Seiciatregol**

**C28 Carwyn Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt ar y gweill i ddiogelu nifer y gwllâu seiciatregol yng Nghymru? (OAQ414VB)

**Jane Hutt:** Yr ydym wedi sefydlu dau grŵp ymgynghorol, yn cynnwys aelodau o bob grŵp sydd â diddordeb, i lunio strategaeth Cymru-gyfan ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion a phlant a phobl ifanc. Wrth ymgymryd â'u gwaith, bydd y grwpiau hyn yn ystyried y nifer priodol o wlaŵ seiciatregol i Gymru. Nid y niferoedd fel cyfanswm yn unig a ystyrir ganddynt; byddant hefyd yn ystyried ansawdd a lleoliad y cyfleusterau hyn i gleifion preswyl.

### **Cardiac Treatment (Cardiff)**

**Q29 Jenny Randerson:** What steps are being taken to reduce waiting lists for cardiac treatment in Cardiff? (OAQ422VB)

**Jane Hutt:** In addition to making £19 million available recurrently to reduce waiting lists we allocated an additional £1.4 million to health authorities in mid and south Wales to help maintain the level of adult cardiac surgical procedures at the University Hospital of Wales, Cardiff.

As stated in question 1 today, the Specialised Health Services Commission for Wales is currently looking at all aspects of adult cardiac services across Wales, including the level of services and the number of surgical operations needed. I look forward to receiving its advice in the autumn.

### **Triniaeth ar y Galon (Caerdydd)**

**C29 Jenny Randerson:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i gwtogi rhestrau aros ar gyfer triniaeth ar y galon yng Nghaerdydd? (OAQ422VB)

**Jane Hutt:** Yn ychwanegol at ddarparu £19 miliwn flwyddyn ar ôl blwyddyn i gwtogi rhestru aros, yr ydym wedi dyrannu £1.4 miliwn ychwanegol i awdurdodau iechyd canolbarth a de Cymru er mwyn helpu i gynnal lefel y llawdriniaethau ar y galon i oedolion yn Ysbyty Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Fel y dywedwyd yng nghwestiwn 1 heddiw, mae'r Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol i Gymru yn edrych ar bob agwedd o wasanaethau'r galon i oedolion ar draws Cymru ar hyn o bryd, gan gynnwys lefel y gwasanaethau a nifer y llawdriniaethau sydd eu hangen. Edrychaf ymlaen at dderbyn ei gyngor yn yr hydref.

### **Children's Commissioner for Wales**

**Q30 Ann Jones:** Will Jane Hutt make a statement on any progress made in establishing a children's commissioner for Wales? (OAQ408VB)

**Jane Hutt:** I have put proposals to the Health and Social Services Committee for taking forward the consideration of an independent children's commissioner for Wales as a matter of priority. The Committee has agreed those proposals, which involve the Committee taking evidence over the autumn and producing a report before the end of the year.

### **Comisiynydd Plant ar gyfer Cymru**

**C30 Ann Jones:** A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch unrhyw ddatblygiadau o ran sefydlu comisiynydd plant ar gyfer Cymru? (OAQ408VB)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi cyflwyno cynigion gerbron y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn bwrw ymlaen i ystyried comisiynydd plant ar gyfer Cymru fel mater o flaenoriaeth. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i'r cynigion hynny, sy'n golygu y bydd y Pwyllgor yn derbyn tystiolaeth dros yr hydref ac yn cynhyrchu adroddiad cyn diwedd y flwyddyn.

## **Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training**

### **Maintenance Allowance Award for Students**

**Q5 Huw Lewis:** Can the Secretary for Post-16 Education and Training give an update on the work done so far on implementing the piloted maintenance allowance award for students in further education in Wales? (OAQ434VB)

**The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst):** The education maintenance allowance pilot schemes are due to start in England in September 1999 and will run for three years.

The pilots in England include 15 local authority areas covering a wide range of social and demographic areas and a range of models. We could not replicate this in Wales. Indeed to run one pilot in Wales would cost £4 million or more without adding to our knowledge.

Once the pilots are completed the Assembly will have the opportunity to consider the information collected and whether or not the scheme should be introduced in Wales.

### **Grant Lwfans Cynhaliaeth ar gyfer Myfyrwyr**

**C5 Huw Lewis:** A all yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ddweud beth yw'r diweddaraf o ran yr hyn sydd wedi'i wneud hyd yma i weithredu'r grant lwfans cynhaliaeth sydd wedi'i gynbrofi ar gyfer myfyrwyr addysg bellach yng Nghymru? (OAQ434VB)

**Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst):** Mae'r cynlluniau peilot lwfans cynhaliaeth addysg i ddechrau yn Lloegr ym mis Medi 1999 a byddant yn parhau am dair blynedd.

Mae'r cynlluniau peilot yn Lloegr yn cynnwys ardaloedd 15 awdurdod lleol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ardaloedd cymdeithasol a demograffig, ac ystod o fodolau. Ni allem efelychu hyn yng Nghymru. Yn wir, byddai'n costio £4 miliwn neu fwy i gynnal un cynllun peilot yng Nghymru heb ychwanegu at ein gwybodaeth.

Unwaith y bydd y cynlluniau peilot wedi eu cwblhau, bydd cyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried y wybodaeth a gasglwyd a pha un a ddylid cyflwyno'r cynllun yng Nghymru ai peidio.

### **Theatre for Young People in Wales**

**Q6 Elin Jones:** What plans does Tom Middlehurst have for using theatre for young people in Wales as a means for promoting social inclusion? (OAQ386)

**Tom Middlehurst:** The Arts Council of Wales has recently published new proposals for theatre for young people as part of its drama strategy. It aims to provide opportunities for people from all backgrounds to enjoy the arts and has underlined the importance of social inclusion in relation to theatre for young people.

### **Theatr ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghymru**

**C6 Elin Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i ddefnyddio theatr ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru fel ffordd o hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol? (OAQ386)

**Tom Middlehurst:** Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi cyhoeddi cynigion newydd yn ddiweddar o ran theatr ar gyfer pobl ifanc fel rhan o'i strategaeth ddrama. Ei nod yw rhoi cyfleoedd i bobl o bob cefndir i fwynhau'r celfyddydau ac mae wedi tanlinellu pwysigrwydd cynhwysu cymdeithasol yng nghyd-destun theatr ar gyfer pobl ifanc.

### **Education and Training for those in Receipt of State Benefits**

**Q7 John Griffiths:** Are there any specific plans in Wales to facilitate participation in education and training for those in receipt of state benefits without adversely effecting those benefits? (OAQ438VB)

**Tom Middlehurst:** Responsibility for state benefits such as job-seekers allowance, income support and incapacity benefit are matters for the Secretary of State for Social Security. However, the New Deal offers opportunities for participants to undertake full-time education and training whilst in receipt of an allowance equivalent to their job-seekers allowance. I am delighted that over 1,200 young people are currently studying under this option in Wales.

### **Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Pobl sy'n Derbynn Budd-daliadau'r Wladwriaeth**

**C7 John Griffiths:** A oes unrhyw gynlluniau penodol yng Nghymru i gynorthwyo'r bobl hynny sy'n derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth i gymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant heb i hynny effeithio ar y budd-daliadau? (OAQ438VB)

**Tom Middlehurst:** Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithas yw budd-daliadau gwladol fel y lwfans ceisio gwaith, cymhorthdal incwm a budd-dâl analluogrwydd. Fodd bynnag, mae'r Fargen Newydd yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n cymryd rhan ynddi i ymgymryd ag addysg a hyfforddiant amser llawn tra'n derbyn lwfans sy'n gyfwerth â'u lwfans ceisio gwaith. Yr wyf wrth fy modd bod dros 1,200 o bobl ifanc yn astudio dan yr opsiwn hwn yng Nghymru ar hyn o bryd.

### **Students from Economically Disadvantaged Backgrounds**

**Q8 John Griffiths:** What strategy will be followed to encourage students from economically disadvantaged backgrounds in Wales to pursue further and higher education? (OAQ436VB)

**Tom Middlehurst:** Our determination to help students from disadvantaged backgrounds has been underlined in the lifelong learning Green Paper 'Learning Is For Everyone', and more recently, the education and training action group's action plan for Wales. Barriers to learning post-16 must be removed if we are to establish Wales as an inclusive learning country. We are committed to ensuring that all those who are capable of benefiting from further and higher education will have an opportunity to do so.

### **Myfyrwyr o Gefndiroedd Economaidd Difreintedig**

**C8 John Griffiths:** Pa strategaeth a ddilynnir i annog myfyrwyr o gefndiroedd economaidd difreintedig yng Nghymru i ddilyn cyrsiau addysg bellach ac uwch? (OAQ436VB)

**Tom Middlehurst:** Tanlinellwyd ein penderfyniad i helpu myfyrwyr o gefndiroedd difreintedig yn y Papur Gwyrdd ar ddysgu gydol oes, 'Mae Dysgu i Bawb', ac, yn fwy diweddar, yng nghynllun gweithredu'r grŵp gweithredu addysg a hyfforddiant ar gyfer Cymru. Rhaid dileu'r pethau sy'n rhwystrau rhag dysgu i bobl dros 16 oed os ydym i sefydlu Cymru fel gwlad gynhwysol sy'n dysgu. Yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb a allai elwa o addysg bellach ac uwch yn cael cyfle i wneud hynny.



## Sporting Organisations

**Q9 Alun Pugh:** What plans does Tom Middlehurst have to ensure that sporting organisations in north and south Wales are treated equally? (OAQ409JS)

**Tom Middlehurst:** Equality of opportunity in sport for people in every part of Wales is at the heart of our approach. The Sports Council for Wales is structured to respond appropriately to local needs through regional offices in Cardiff, Carmarthen and Deeside. The Council has established networks across Wales and works with local authorities to ensure that no area is overlooked.

Decisions on the awards of capital lottery grants are also made at a regional level in Wales by the three Sportlot panels. Lottery distributors are now required to achieve a fair geographical spread in allocating funds. We will monitor distribution in Wales and discuss with the Sports Council the steps it is taking to redress any imbalance.

## Sefydliadau Chwaraeon

**C9 Alun Pugh:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i sicrhau bod sefydliadau chwaraeon yn y Gogledd a'r De yn cael eu trin yn gyfartal? (OAQ409JS)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Cydraddoldeb cyfle mewn chwaraeon i bobl ym mhob rhan o Gymru yw'r egwyddor sydd wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi ei drefnu fel y gall ymateb yn briodol i anghenion lleol drwy swyddfeydd rhanbarthol yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Glannau Dyfrdwy. Mae'r Cyngor wedi sefydlu rhwydweithiau ar hyd a lled Cymru ac mae'n gweithio gyda'r awdurdodau lleol i sicrhau nad oes unrhyw ardal yn cael ei hesgeuluso.

Ar lefel ranbarthol, gan y tri phanel Sportlot y penderfynir hefyd pa grantiau loteri cyfalaf sydd i'w dyfarnu yng Nghymru. Bellach mae'n ofynnol i gyrff dosbarthu'r Loteri sicrhau dosbarthiad daearyddol teg wrth ddyrannu adnoddau. Byddwn yn monitro'r dosbarthiad yng Nghymru ac yn trafod gyda'r Cyngor Chwaraeon y camau y mae'n eu cymryd i unioni unrhyw anghydwysedd.

## Welsh Medium Educational Opportunities

**Q10 Jocelyn Davies:** Will Tom Middlehurst ensure that educational opportunities through the medium of Welsh are available to those wishing to continue their studies after the age of 16? (OAQ428VB)

**Tom Middlehurst:** Our lifelong learning agenda aims to ensure that all people have the opportunity to study and learn through the medium of Welsh and attaches a high priority to the sustained development of the Welsh language.

## Cyfleoedd Addysgol drwy Gyfrwng y Gymraeg

**C10 Jocelyn Davies:** A fydd Tom Middlehurst yn sicrhau bod cyfleoedd addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i'r rheini sydd am barhau â'u hastudiaethau ar ôl 16 oed? (OAQ428VB)

**Tom Middlehurst:** Nod ein hagenda dysgu gydol oes yw sicrhau bod cyfle i bawb astudio a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a rhoddir blaenoriaeth uchel ynddi i ddatblygu'r iaith Gymraeg mewn modd cynaliadwy.

## A-Level Students

**Q11 David Davies:** Will Tom Middlehurst support the role of schools in educating A-level students in Wales? (OAQ384JS)

**Tom Middlehurst:** Schools will continue to play a vital role in educating pupils at Advanced level. In his foreword to the Education and Training Action Plan for Wales, Alun Michael made clear that schools, colleges and work-based training will all have important roles in the provision of post-16 education. Co-operation with colleges and the workplace will strengthen the role of the sixth form, not weaken it. Our aim is to harness the strengths of each route for the benefit of individual learners, employers and the Welsh economy.

## Myfyrwyr Safon Uwch

**C11 David Davies:** A fydd Tom Middlehurst yn cefnogi rôl ysgolion o ran addysgu myfyrwyr Safon Uwch yng Nghymru? (OAQ384JS)

**Tom Middlehurst:** Bydd ysgolion yn parhau i chwarae rôl holl bwysig o ran addysgu disgyblion ar Safon Uwch. Yn ei ragair i'r Cynllun Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant i Gymru, fe'i gwnaed yn glir gan Alun Michael y bydd rôl bwysig i ysgolion, colegau a hyfforddiant seiliedig-ar-waith fel ei gilydd wrth ddarparu addysg ôl-16. Bydd cydweithredu gyda cholegau a'r gweithle yn atgyfnerthu rôl y chweched dosbarth, nid ei gwanhau. Ein nod ni yw ffrwyno cryfderau pob un o'r llwybrau hyn er budd dysgwyr unigol, cyflogwyr ac economi Cymru.

## National Museum of Wales

**Q12 Jenny Randerson:** Will Tom Middlehurst give an assurance that children will not be charged to visit the National Museum of Wales this summer? (OAQ424VB)

**Tom Middlehurst:** Decisions on admission charges at the National Museum are a matter for the Council of the National Museums and Galleries of Wales, within the resources available to them. The financial settlement for 1999-2000 provided the museum with its first real terms increase in many years, and enabled it to provide free admission from 1 April for pre-booked school parties. Adults taking along children this summer will be able to benefit from the normal family discounts.

## Amgueddfa Genedlaethol Cymru

**C12 Jenny Randerson:** A wnaiff Tom Middlehurst roi sicrwydd na fydd plant yn gorfod talu am gael ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru yr haf hwn? (OAQ424VB)

**Tom Middlehurst:** Mater i Gyngor Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru yw penderfynu ynghylch taliadau mynediad, o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Rhoddodd setliad ariannol 1999-2000 ei chynnydd cyntaf i'r amgueddfa mewn termau real ers llawer blwyddyn, gan ei galluogi i roi mynediad am ddim o 1 Ebrill ymlaen i bartion ysgol oedd wedi trefnu eu hymweliad ymlaen llaw. Bydd oedolion sy'n mynd â phlant yno yr haf hwn yn gallu elwa o'r gostyngiadau arferol i deuluoedd.

## Teachers' Pay

**Q13 Richard Edwards:** What plans does Tom Middlehurst have to establish a level playing field for teachers' pay in post-16 education? (OAQ441VB)

**Tom Middlehurst:** The pay arrangements for all teachers who are qualified to teach in schools in England and Wales are based on recommendations made by the School Teachers'

Review Body. The arrangements are detailed in the school teachers' pay and conditions document which is issued by the Secretary of State for Education and Employment and has statutory force. Remuneration for teachers in further and higher education institutions is a matter for their employers. There are no plans to change these arrangements.

### **Tâl Athrawon**

**C13 Richard Edwards:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i sicrhau chwarae teg o ran tâl athrawon mewn addysg ar ôl 16? (OAQ441VB)

**Tom Middlehurst:** Mae trefniadau cyflog pob athro sydd wedi ymgymhwysu i ddysgu mewn ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar argymhellion Corff Adolygu'r Athrawon Ysgol. Manylir ar y trefniadau yn y ddogfen ar dâl ac amodau athrawon ysgol a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth ac maent iddynt rym statudol. Mater i'w cyflogwyr yw tâl athrawon mewn sefydliadau addysg bellach ac uwch. Nid oes unrhyw gynlluniau i newid y trefniadau hyn.

### **Students whose Families are on Income Support**

**Q14 Geraint Davies:** Does Tom Middlehurst have any plans to address the financial difficulties experienced by students whose families are on income support? (OAQ426VB)

**Tom Middlehurst:** The new higher education funding arrangements are designed to protect those in need. Tuition continues to be free for students from lower-income families. Only those from the most well-off backgrounds will pay the full tuition fee.

Maintenance loans are provided for all those students who have to pay a fee. This ensures that no parent or family has to pay a higher up-front bill than under the previous arrangements. Assessment of income ensures that the contribution to fees and maintenance combined does not exceed the level of contribution to maintenance required under the previous system. An extra loan of up to £250 per annum is also available on a discretionary basis to students who experience serious financial difficulties.

Lead responsibility for higher education student support matters for England and Wales rests with the Department for Education and Employment. This function has not been transferred to the National Assembly for Wales.

However, the National Assembly for Wales has inherited from the Welsh Office a system which provides publicly-funded higher education institutions and further education colleges with Access Funds so that they can provide selective help, at their discretion, to students who have serious financial difficulties. The level of resources for access funds in 1999-00 is £3.025 million for higher education and £3.0 million for further education.

### **Myfyrwyr y mae eu Teuluoedd yn Derbyn Cymhorthdal Incwm**

**C14 Geraint Davies:** A oes gan Tom Middlehurst gynlluniau i fynd i'r afael â'r anawsterau ariannol sy'n wynebu myfyrwyr y mae eu teuluoedd yn derbyn cymhorthdal incwm? (OAQ426VB)

**Tom Middlehurst:** Mae'r trefniadau cyllido newydd i addysg uwch wedi eu cynllunio i warchod y rheini sydd mewn angen. Mae'r hyfforddiant yn dal i fod yn rhad ac am ddim i fyfyrwyr o deuluoedd ar incwm isel. Dim ond y rheini o'r cefndiroedd mwyaf llewyrchus fydd yn talu'r ffi hyfforddi yn llawn.

Darperir benthyciadau cynhaliaeth i bob myfyriwr sy'n gorfod talu ffi. Mae hyn yn sicrhau nad oes rhaid i unrhyw riant na theulu dalu mwy ar y cychwyn nag a fyddent yn ei dalu dan y trefniadau blaenorol. Drwy asesu incwm, sicrheir nad yw'r cyfraniad tuag at ffioedd a chynhaliaeth gyda'i gilydd yn uwch na lefel y cyfraniad cynhaliaeth oedd yn ofynnol dan y system flaenorol. Mae benthyciad ychwanegol o hyd at £250 y flwyddyn ar gael hefyd ar sail ddewisol i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol difrifol.

Mae'r cyfrifoldeb pennaf am faterion yn ymwneud â chefnogi myfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru a Lloegr yn gorffwys gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Nid yw'r swyddogaeth hon wedi ei throsglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fodd bynnag, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi etifeddu oddi wrth y Swyddfa Gymreig system sy'n darparu i sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach, a gyllidir ag arian cyhoeddus, Gronfeydd Mynediad fel y gallant gynnig help ar sail ddethol, yn ôl eu doethineb, i fyfyrwyr sydd ag anawsterau ariannol difrifol. Mae lefel yr adnoddau i'r cronfeydd mynediad yn 1999-00 yn £3.025 miliwn i addysg uwch a £3.0 miliwn i addysg bellach.

### **Long-term Strategy for the Arts**

**Q15 Peter Black:** What proposals does Tom Middlehurst have to draw up a long-term strategy for the arts in Wales? (OAQ399VB)

**Tom Middlehurst:** The National Assembly's Subject Committee for Post-16 Education, Training and Culture will examine the arts during its first programme of activities. We will have regard to the findings and conclusions of the Subject Committee in agreeing future corporate strategies with the Arts Council of Wales.

### **Strategaeth Dymor Hir ar gyfer y Celfyddydau**

**C15 Peter Black:** Pa fwriad sydd gan Tom Middlehurst i lunio strategaeth dymor hir ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru? (OAQ399VB)

**Tom Middlehurst:** Bydd Pwyllgor Pwnc y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Addysg Ôl-16, Hyfforddiant a Diwylliant yn edrych yn fanwl ar y celfyddydau yn ystod ei raglen gyntaf o weithgareddau. Byddwn yn cadw canfyddiadau a chasgliadau'r Pwyllgor Pwnc mewn cof wrth gytuno ar strategaethau corfforaethol i'r dyfodol gyda Chyngor Celfyddydau Cymru.

### **Democratic Body for Lifelong Learning**

**Q16 Janice Gregory:** What plans does Tom Middlehurst have to establish an all-Wales democratic body for lifelong learning to implement the idea of a 'Learning Country', as depicted in the 'Learning Is For Everyone' Green Paper and the Education and Training Action Plan for Wales? (OAQ415VB)

**Tom Middlehurst:** This Assembly is the democratic body responsible to the people of Wales. It is up to us to ensure that everyone here has access to the very best opportunities for personal success and fulfilment through lifelong learning.

### **Corff Democrataidd ar gyfer Dysgu Gydol Oes**

**C16 Janice Gregory:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i sefydlu corff democrataidd ar gyfer Cymru gyfan ar gyfer dysgu gydol oes i weithredu'r syniad o 'Wlad sy'n Dysgu', fel y'i disgrifir yn y Papur Gwyrdd 'Mae Dysgu i Bawb' a'r Cynllun Gweithredu ar Addysg a Hyfforddiant i Gymru? (OAQ415VB)

**Tom Middlehurst:** Y Cynulliad hwn yw'r corff democrataidd sy'n atebol i bobl Cymru. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod pawb yma yn gallu manteisio ar y cyfleoedd gorau posibl i gael llwyddiant a boddhad personol trwy ddysgu gydol eu hoes.

### **New Deal**

**Q17 Loraine Barrett:** What plans are in hand to ensure that the Assembly continues to have influence in the direction of the New Deal education and training programmes in Wales? (OAQ419VB)

**Tom Middlehurst:** The New Deal is an excellent example of the joined-up Government we want to achieve in the Assembly, not just involving different arms of Government but bringing together a wide range of sectors—local authorities, employers, voluntary organisations, environmental bodies, education and training providers and many other—in planning and delivery.

We are pleased with performance to date in Wales. In total over 9,500 unemployed people in Wales have secured real jobs under the various New Deal initiatives, including almost 7,300 under the New Deal for 18-24s.

More broadly, New Deal plays an important role in supporting economic regeneration and social inclusion. We must ensure that it continues to develop in ways which suit Wales and it is essential that the right connections are made between the New Deal and the National Assembly's policies and programmes in areas such as economic development, education, training, guidance, health and social inclusion.

There are several avenues for influence over the development New Deal in Wales:

- the Wales New Deal Task Force, a body comprising representatives of private and public sector employers, education and training providers and voluntary and environmental organisations, will advise me on the progress of the New Deal in Wales and feed views to the UK Task Force, which in turn advises DfEE Ministers;
- the Post-16 Education and Training Subject Committee will review New Deal progress every six months;
- joint planning arrangements are in place involving officials of the Employment Service, the Benefits Agency and the National Assembly to oversee the implementation of the New Deal in Wales;
- finally, arrangements are being put in place with DfEE to ensure that the Assembly is consulted on new developments and kept advised of progress.

### **Y Fargen Newydd**

**C17 Loraine Barrett:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sicrhau bod y Cynulliad yn parhau i ddylanwadu ar raglenni addysg a hyfforddiant y Fargen Newydd yng Nghymru? (OAQ419VB)

**Tom Middlehurst:** Mae'r Fargen Newydd yn enghraifft ragorol o'r Llywodraeth gyfunedig yr ydym am ei chyflawni yn y Cynulliad, gan gynnwys nid yn unig ganghennau'r Llywodraeth ond yn dod ag ystod eang o sectorau ynghyd—awdurdodau lleol, cyflogwyr,

mudiadau gwirfoddol, cyrff amgylcheddol, darparwyr addysg a hyfforddiant a llawer o rai eraill yn y gwaith cynllunio a chyflwyno.

Yr ydym yn fodlon â'r hyn a gyflawnwyd yng Nghymru hyd yma. Mae dros 9,500 o bobl ddi-waith i gyd yng Nghymru wedi cael swyddi go-iawn dan wahanol gynlluniau'r Fargen Newydd, gan gynnwys bron i 7,300 dan y Fargen Newydd i rai 18-24 oed.

Yn fwy cyffredinol, mae'r Fargen Newydd yn chwarae rôl bwysig o ran cefnogi adfywio cymdeithasol a chynhwyso cymdeithasol. Rhaid inni sicrhau ei bod yn parhau i ddatblygu mewn ffyrdd sy'n gweddu i Gymru ac mae'n hanfodol bod y dolenni cyswllt cywir yn cael eu llunio rhwng y Fargen Newydd a pholisïau a rhaglenni'r Cynulliad Cenedlaethol mewn meysydd fel datblygu economaidd, addysg, hyfforddiant, cyfarwyddyd, iechyd a chynhwyso cymdeithasol.

Mae yna sawl ffordd i ddylanwadu ar ddatblygiad y Fargen Newydd yng Nghymru:

- bydd Tasglu y Fargen Newydd yng Nghymru, corff sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith cyflogwyr sector preifat a chyhoeddus, darparwyr addysg a hyfforddiant a mudiadau gwirfoddol ac amgylcheddol, yn rhoi gwybod imi am hynt y Fargen Newydd yng Nghymru ac yn bwydo barn yn ôl i Dasglu'r DU, sydd yn ei dro yn cynghori Gweinidogion yr Adran Addysg a Chyflogaeth;
- bydd y Pwyllgor Pwnc Addysg Ôl-16 a Dysgu Gydol Oes yn adolygu cynnydd y Fargen Newydd bob chwe mis;
- mae trefniadau cynllunio ar y cyd wedi eu sefydlu rhwng swyddogion y Gwasanaeth Cyflogi, yr Asiantaeth Budd-daliadau a'r Cynulliad Cenedlaethol i oruchwylio'r modd o roi'r Fargen Newydd ar waith yng Nghymru;
- yn olaf, mae trefniadau'n cael eu sefydlu gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth i sicrhau yr ymgynghorir â'r Cynulliad ynglŷn â datblygiadau newydd ac y caiff wybodaeth gyson am hynt y Fargen Newydd.

### **Examinations for Sixth-formers**

**Q18 Jonathan Morgan:** Does Tom Middlehurst have any plans to replace the current A-levels with another form of examination for Welsh sixth-formers? (OAQ396) *Withdrawn.*

### **Arholiadau ar gyfer Disgyblion Dosbarth Chwech**

**C18 Jonathan Morgan:** A oes gan Tom Middlehurst unrhyw gynlluniau i gyflwyno math arall o arholiad ar gyfer disgyblion dosbarth chwech Cymru yn lle'r Safon Uwch bresennol? (OAQ396) *Tynnwyd yn ôl.*

### **Tuition Fees (Impact on Access to Higher Education Institutions)**

**Q19 Peter Black:** What action is Tom Middlehurst taking to monitor the impact of tuition fees on access to higher education institutions in Wales? (OAQ390VB)

**Tom Middlehurst:** As the Assembly Member is fully aware, lead responsibility for tuition fee policy for England and Wales remains with the Department for Education and Employment. The function has not been devolved to the National Assembly for Wales.

The key purpose behind the introduction of student tuition fees and the new student support arrangements is to enable the improvement and expansion of higher education, which could not be afforded under the previous funding arrangements, whilst ensuring that free education will continue for the least well off.

Over the last decade, participation in higher education by the top three socio-economic income groups has expanded twice as quickly as among socio-economic groups D and E. The better off have gained the most from the area of education that costs the most. The previous student support arrangements failed to encourage more students from lower-income families to enter higher education. The key features of the new arrangements are that students from poorer backgrounds will not have to pay fees and will have access to sufficient funds to cover their living costs while they are studying.

There is no indication that the new funding arrangements are having an adverse effect on applications to university. Application figures are collected centrally by the Universities and Colleges Admissions Service. Its latest figures, published on 28 May 1999, indicate that for 1999-2000, applications by home students aged up to 21 are slightly up (0.2 per cent) on the same point in 1998. Separate figures for Wales are not available at this time.

### **Ffioedd Hyfforddi (Effaith ar y Niferoedd sy'n Mynd i Sefydliadau Addysg Uwch)**

**C19 Peter Black:** Beth mae Tom Middlehurst yn ei wneud i fonitro effaith y ffioedd hyfforddi ar y niferoedd sy'n mynd i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru? (OAQ390VB)

**Tom Middlehurst:** Fel y gŵyr yr Aelod yn iawn, yr Adran Addysg a Chyflogaeth sy'n dal yn bennaf gyfrifol am y polisi ar ffioedd hyfforddi yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r swyddogaeth hon wedi ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y diben allweddol tu ôl i gyflwyno ffioedd hyfforddi i fyfyrwyr a'r trefniadau cynhalieth newydd i fyfyrwyr yw ei gwneud hi'n bosibl gwella ac ehangu addysg uwch, rhywbeth na ellid bod wedi ei fforddio dan y trefniadau cyllido blaenorol, tra'n sicrhau y bydd addysg rad-ac-am-ddim yn parhau i'r rhai lleiaf cefnog.

Dros y degawd diwethaf, mae'r nifer sy'n cymryd rhan mewn addysg uwch o blith y tri grŵp incwm cymdeithasol-economaidd uchaf wedi cynyddu ddwywaith yn gyflymach nag ymysg grwpiau cymdeithasol-economaidd D ac E. Y bobl fwyaf llewyrchu sydd wedi elwa fwyaf o'r maes addysg sy'n costio fwyaf. Methodd y trefniadau blaenorol i gynnal myfyrwyr ag annog mwy o fyfyrwyr o deuluoedd ar incwm is i fynd i mewn i addysg uwch. Nodweddion allweddol y trefniadau newydd yw na fydd yn rhaid i fyfyrwyr o gefndiroedd tlotach dalu ffioedd a gallant fanteisio ar gyllid digonol i dalu eu costau byw tra byddant yn astudio.

Nid oes unrhyw awgrym bod y trefniadau cyllido newydd yn cael effaith andwyol ar geisiadau i brifysgolion. Cesglir y ffigurau ymgeisio gan Wasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau. Dengys ei ffigurau diweddaraf, a gyhoeddwyd ar 28 Mai 1999, gynnydd bychan (0.2 y cant) yn y ceisiadau gan fyfyrwyr cartref hyd at 21 oed yn 1999-2000, o'u cymharu â'r un adeg yn 1998. Nid oes ffigurau ar wahân am Gymru ar gael ar hyn o bryd.

### **Tuition Fees (Impact on Students)**

**Q20 Nick Bourne:** What representations has Tom Middlehurst received concerning tuition fees for students in higher education in Wales and will he set up an inquiry into the impact of tuition fees on students pursuing higher education courses? (OAQ383JS)

**Tom Middlehurst:** Responsibility for student support matters, including tuition fee policy, for England and Wales remains with the Department for Education and Employment. The function has not been devolved to the National Assembly for Wales.

There is no benefit to be gained from having a tuition fees policy in Wales different from that in England bearing in mind the level of cross-border flow of students in both directions. The Welsh HE sector will gain income amounting to £66 million from private contributions to tuition fees over the three years to 2001-2002, including from students domiciled in England who fill almost a third of the places at Welsh HE institutions. If the level of tuition fees was set lower in Wales, income from private fee contributions would be reduced, placing Welsh HE institutions at a disadvantage compared with those elsewhere in the UK.

One written representation on tuition fees has been made by the Association of University Teachers. The National Union of Students Wales also raised the issue in a recent meeting with me.

### **Ffioedd Hyfforddi (Effaith ar Fyfyrrwyr)**

**C20 Nick Bourne:** Pa sylwadau sydd wedi dod i law ynglŷn â ffioedd hyfforddi ar gyfer myfyrwyr mewn addysg uwch yng Nghymru ac a fydd yn sefydlu ymchwiliad i effaith ffioedd hyfforddi ar fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch? (OAQ383JS)

**Tom Middlehurst:** Mae'r cyfrifoldeb am faterion cynnal myfyrwyr, gan gynnwys y polisi ar ffioedd hyfforddi, yng Nghymru a Lloegr yn aros gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth. Nid yw'r swyddogaeth wedi ei datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ni cheir unrhyw fudd o gael polisi gwahanol ar ffioedd hyfforddi yng Nghymru i'r polisi yn Lloegr, o gofio nifer y myfyrwyr sy'n croesi'r ffin i'r ddau gyfeiriad. Bydd sector AU Cymru yn ennill incwm o £66 miliwn o gyfraniadau preifat tuag at ffioedd hyfforddi dros y tair blynedd hyd at 2001-2002, gan gynnwys ffioedd oddi wrth fyfyrwyr sydd â'u cartref yn Lloegr sy'n llenwi bron i draean y llefydd mewn sefydliadau AU yng Nghymru. Pe câi lefel y ffioedd hyfforddi ei phennu ar lefel is yng Nghymru, ceid gostyngiad yn yr incwm o gyfraniadau ffioedd preifat, gan beri anfantais i sefydliadau AU yng Nghymru o'u cymharu â sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU.

Cafwyd un sylw ysgrifenedig ar ffioedd hyfforddi gan Gymdeithas y Darlithwyr Prifysgol. Codwyd y mater hefyd gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru mewn cyfarfod diweddar gyda mi.

### **Sporting Excellence**

**Q21 Kirsty Williams:** What proposals does Tom Middlehurst have to develop sporting excellence in Wales? (OAQ416VB)

**Tom Middlehurst:** The Sports Council for Wales is responsible for developing and promoting sport and recreation in Wales. The council's mission statement commits it to raising standards of performance and excellence in sport. The Council's Elite Cymru scheme provides both elite and potentially elite athletes with a wide range of support services to assist them to fully develop their potential.

### **Rhagoriaeth mewn Chwaraeon**

**C21 Kirsty Williams:** Pa fwriad sydd gan Tom Middlehurst i ddatblygu rhagoriaeth mewn chwaraeon yng Nghymru? (OAQ416VB)



**Tom Middlehurst:** Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a hyrwyddo chwaraeon ac adloniant yng Nghymru. Mae datganiad cenhadaeth y cyngor yn ei rwymo i godi safonau perfformiad a rhagoriaeth mewn chwaraeon. Mae cynllun y Cyngor, Elite Cymru, yn darparu ystod eang o wasanaethau cefnogi i athletwyr elite a darpar athletwyr elite i'w helpu i lwyr ddatblygu eu potensial.

### **Assistance for Higher Education Students**

**Q22 Jonathan Morgan:** What extra assistance can the Assembly give to higher education students in Wales in order to reduce the impact of tuition fees? (OAQ397VB)

**Tom Middlehurst:** Under the Government's funding arrangements for higher education, tuition will continue to be free for the least well-off. Only those students from the most well-off backgrounds will pay the full tuition fee and around a third of all students will only pay part of the fee.

Maintenance loans are provided for all those students who have to pay a fee. This ensures that no parent or family has to pay a higher up-front bill than under the previous arrangements. Assessment of income ensures that the contribution to fees and maintenance combined does not exceed the level of contribution to maintenance required under the previous system. An extra loan of up to £250 per annum is also available on a discretionary basis to students who experience serious financial difficulties.

The National Assembly for Wales provides publicly-funded higher education institutions with Access Funds so that they can provide selective help, at their discretion, to students who have serious financial difficulties. The level of resources for higher education access funds in 1999-00 is £3.025 million.

### **Cymorth i Fyfyrrwyr Addysg Uwch**

**C22 Jonathan Morgan:** Pa gymorth ychwanegol y gall y Cynulliad ei roi i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru er mwyn lleihau effaith ffioedd hyfforddi? (OAQ397VB)

**Tom Middlehurst:** Dan drefniadau cyllido'r Llywodraeth i addysg uwch, bydd hyfforddiant yn parhau i fod yn rhad ac am ddim i'r rhai lleiaf cefnog. Dim ond y myfyrwyr hynny o'r cefndiroedd mwyaf cefnog fydd yn talu'r ffi hyfforddi yn llawn ac ni fydd tua traean yr holl fyfyrwyr ond yn talu rhan o'r ffi.

Darperir benthyciadau cynhaliaeth i bob myfyriwr sy'n gorfod talu ffi. Mae hyn yn sicrhau nad oes rhaid i unrhyw riant na theulu dalu mwy ar y cychwyn nag a fyddent yn ei dalu dan y trefniadau blaenorol. Drwy asesu incwm, sicrheir nad yw'r cyfraniad tuag at ffioedd a chynhaliaeth gyda'i gilydd yn uwch na lefel y cyfraniad cynhaliaeth oedd yn ofynnol dan y system flaenorol. Mae benthyciad ychwanegol o hyd at £250 y flwyddyn ar gael hefyd ar sail ddewisol i fyfyrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol difrifol.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu i sefydliadau addysg uwch, a gyllidir ag arian cyhoeddus, Gronfeydd Mynediad fel y gallant gynnig help ar sail ddethol, yn ôl eu doethineb, i fyfyrwyr sydd ag anawsterau ariannol difrifol. Mae lefel yr adnoddau i gronfeydd mynediad addysg uwch yn 1999-00 yn £3.025 miliwn.

### **Government Funded Research Councils**

**Q23 Phil Williams:** What proportion of the total budget of Government funded research councils was allocated to higher education and research council institutions in Wales over the period 1995-98? (OAQ429VB)

**Tom Middlehurst:** The figures requested by the Assembly Member in relation to Welsh higher education institutions are: 1994-95: 2.9 per cent; 1995-96: 2.9 per cent; 1996-97: 2.8 per cent; 1997-98: 2.9 per cent.

Historically, Wales has started from a lower research base but the Higher Education Funding Council for Wales has been asked to help the HE sector gain a greater proportion of Research Council funding than in the recent past. HEFCW has been asked to submit a report on progress to the National Assembly for Wales by spring 2000.

In each of the years 1993-98, the Welsh Office made an additional £2.9 million per annum available to the higher education sector specifically to raise the quality and volume of research in Wales. For the three year period 1999-2000 to 2001-2002, over £22 million in capital funding is also being provided for research and development.

The only research institute in Wales is the Institute of Grasslands and Environmental Research at Aberystwyth, which is the responsibility of the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food.

### **Cynghorau Ymchwil a Ariennir gan y Llywodraeth**

**C23 Phil Williams:** Pa gyfran o gyfanswm cyllideb y cynghorau ymchwil a ariennir gan y llywodraeth a neilltuwyd i sefydliadau addysg uwch a chynghorau ymchwil yng Nghymru yn ystod y cyfnod 1995-98? (OAQ429VB)

**Tom Middlehurst:** Y ffigurau a geisir gan yr Aelod o'r Cynulliad mewn perthynas â sefydliadau addysg uwch Cymru yw: 1994-95: 2.9 y cant; 1995-96: 2.9 y cant; 1996-97: 2.8 y cant; 1997-98: 2.9 y cant.

Yn hanesyddol, mae Cymru wedi dechrau o sylfaen ymchwil is ond gofynnwyd i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru helpu'r sector AU i ennill cyfran fwy o gyllid y Cynghorau Ymchwil nag a wnaethant dros y blynyddoedd diwethaf. Gofynnwyd i'r Gyngor Cyllido gyflwyno adroddiad cynnydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn gwanwyn 2000.

Ym mhob blwyddyn rhwng 1993 a 1998, rhyddhaodd y Swyddfa Gymreig £2.9 miliwn ychwanegol y flwyddyn i'r sector addysg uwch yn benodol er mwyn gwella ansawdd a chynyddu swmp yr ymchwil yng Nghymru. Am y cyfnod tair blynedd 1999-2000 i 2001-2002, mae dros £22 miliwn o arian cyfalaf hefyd yn cael ei ddarparu ar gyfer ymchwil a datblygu.

Yr unig sefydliad ymchwil yng Nghymru yw'r Sefydliad Ymchwil Tir Glas a'r Amgylchedd yn Aberystwyth, a'r Weinyddiaeth Amaeth, Pysgodfeydd a Bwyd sy'n gyfrifol amdano.

### **Education Maintenance Allowance**

**Q24 Christine Chapman:** Are there any plans to introduce a pilot scheme for the education maintenance allowance in Wales similar to that being introduced in a number of areas in England as from September? (OAQ431VB)

**Tom Middlehurst:** The education maintenance allowance pilot schemes are due to start in England in September 1999 and will run for three years.

The pilots in England include 15 local authority areas covering a wide range of social and demographic areas and a range of models. We could not replicate this in Wales. Indeed to run one pilot in Wales would cost £4 million or more without adding to our knowledge.

Once the pilots are completed, the National Assembly for Wales will have the opportunity to consider the information collected and whether or not the scheme should be introduced in Wales.

### **Lwfans Cynhaliaeth Addysg**

**C24 Christine Chapman:** A oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno cynllun peilot ar gyfer y lwfans cynhaliaeth addysg yng Nghymru yn debyg i'r hyn fydd yn cael ei gyflwyno mewn nifer o ardaloedd yn Lloegr o fis Medi? (OAQ431VB)

**Tom Middlehurst:** Mae'r cynlluniau peilot lwfans cynhaliaeth addysg i ddechrau yn Lloegr ym mis Medi 1999 a byddant yn parhau am dair blynedd.

Mae'r cynlluniau peilot yn Lloegr yn cynnwys ardaloedd 15 awdurdod lleol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o ardaloedd cymdeithasol a demograffig, ac ystod o fodolau. Ni allem efelychu hyn yng Nghymru. Yn wir, byddai'n costio £4 miliwn neu fwy i gynnal un cynllun peilot yng Nghymru heb ychwanegu at ein gwybodaeth.

Unwaith y bydd y cynlluniau peilot wedi eu cwblhau, bydd cyfle i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ystyried y wybodaeth a gasglwyd a pha un y dylid cyflwyno'r cynllun yng Nghymru ai peidio.

### **Reform of Post-16 Qualifications**

**Q25 Alun Pugh:** Will Tom Middlehurst make a statement on the reform of post-16 qualifications in Wales? (OAQ410JS)

**Tom Middlehurst:** The introduction of a single credit-based framework for post-16 qualifications was advocated in the lifelong learning Green Paper for Wales 'Learning Is For Everyone', published in April 1998. More recently, the Education and Training Action Group's Action Plan for Wales urged the Assembly to press ahead with introducing the framework. As the Member is aware, we are currently considering ETAG's proposals and will take decisions on any reform of post-16 qualifications in the best interests of all participants and users of education and training in Wales, taking into account the updating of existing qualifications and new developments.

### **Diwygio Cymwysterau ar ôl 16**

**C25 Alun Pugh:** A wnaiff Tom Middlehurst ddatganiad ar ddiwygio'r cymwysterau ar ôl 16 yng Nghymru? (OAQ410JS)

**Tom Middlehurst:** Yr oedd cyflwyno un fframwaith, wedi ei seilio ar gredydau, o ran cymwysterau ôl-16 yn rhywbeth a gafodd ei gymell yn y Papur Gwyrdd i Gymru ar ddysgu gydol eich oes, 'Rhywbeth i Bawb yw Dysgu', a gyhoeddwyd fis Ebrill 1998. Yn fwy diweddar, mae Cynllun Gweithredu y Grŵp Gweithredu i Gymru ar Addysg a Hyfforddiant wedi annog y Cynulliad i fwrw ymlaen i gyflwyno'r fframwaith. Fel y gŵyr yr Aelod, yr ydym ar hyn o bryd yn ystyried cynigion y Grŵp Gweithredu ac fe benderfynir ar unrhyw newidiadau yn y cymwysterau ôl-16 er budd pennaf pawb sy'n cyfrannu at ac yn defnyddio addysg a hyfforddiant yng Nghymru, gan gymryd i ystyriaeth y diweddarau ar y cymwysterau presennol a datblygiadau newydd.

### **Bridgend and Pencoed Colleges**

**Q26 Carwyn Jones:** What plans does Tom Middlehurst have to consult with staff at Bridgend and Pencoed colleges before any proposed merger? (OAQ412VB)

**Tom Middlehurst:** It is for the Further Education Funding Council for Wales, following formal public consultation, to make statutory proposals to this Assembly, on mergers of institutions in the further education sector in Wales.

Discussions between Bridgend and Pencoed colleges on the possibility of a merger are at an early stage. I would expect local consultation with the staff of both colleges, and their representatives. If the respective governing bodies subsequently decide in favour of a merger, the case will be put formally to the FEFCW to consider.

### **Colegau Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed**

**C26 Carwyn Jones:** Pa gynlluniau sydd gan Tom Middlehurst i ymgynghori â staff colegau Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed cyn unrhyw uno arfaethedig? (OAQ412VB)

**Tom Middlehurst:** Mater i Gyngor Cyllido Addysg Bellach Cymru, ar ôl ymgynghori cyhoeddus ffurfiol, yw cyflwyno cynigion statudol i'r Cynulliad hwn ar uno sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

Nid yw'r trafodaethau rhwng colegau Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed ynghylch y posibilrwydd o uno ond megis dechrau eto. Byddwn yn disgwyl ymgynghori lleol gyda staff y ddau goleg, a'u cynrychiolwyr. Os bydd y ddau gorff llywodraethol yn penderfynu wedyn o blaid uno, caiff yr achos ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Cyngor Cyllido i'w ystyried.

### **Artist of the Year**

**Q27 Mick Bates:** What plans are being made to promote the artist of the year in Wales in the year 2000? (OAQ523VB)

**Tom Middlehurst:** The Arts Council of Wales will be contributing to the UK-wide celebration of the Year of the Artist, in partnership with arts organisations, artists, galleries, and others.

Projects being considered include: encouraging arts organisations to hold open rehearsals and work in progress with artists present; expanding the programme of artists residencies in schools; and producing promotional material to raise public awareness of the contribution that artists can make to society.

### **Arlunydd y Flwyddyn**

**C27 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i hyrwyddo arlunydd y flwyddyn yng Nghymru yn y flwyddyn 2000? (OAQ523VB)

**Tom Middlehurst:** Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn cyfrannu at ddathliadau Blwyddyn yr Arlunydd ledled y DU, mewn partneriaeth â mudiadau celf, arlunwyr, orielau ac eraill.

Ymysg y prosiectau sy'n cael eu hystyried mae: annog mudiadau celf i gynnal ymarferion agored a gwaith ar y gweill gyda'r arlunwyr yn bresennol; ehangu'r rhaglen sy'n cyflwyno arlunwyr preswyl mewn ysgolion; a chynhyrchu deunydd hyrwyddo i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cyfraniad y gall arlunwyr ei wneud i gymdeithas.